Theatr Iolo

# Tips ar gyfer sgrifennu drama podlediad

**Mae sgrifennu drama ar gyfer podlediad yn gallu bod damaid yn wahanol i sgrifennu un i'w pherfformio ar lwyfan. Dyma rywfaint o tips i'ch rhoi chi ar ben y ffordd…**

- Gan fod y bobol sy'n gwrando'n methu gweld sut olwg sydd ar eich cymeriadau, na sut maen nhw'n bihafio, meddyliwch am ffyrdd eraill o fynegi personoliaeth eich cymeriad drwy'r sgript.

- Mae acenion neu leisiau sydd i'w clywed yn wahanol yn ffordd dda o ymorol bod y bobol sy'n gwrando'n gwbod pwy yw pwy. Os yw'ch cymeriadau chi i'w clywed yn rhy debyg i'w gilydd fe allai fod yn ddryslyd.

- Mewn drama podlediad, gallwch ddefnyddio effeithiau sain i fywiogi eich sgript. Gallai'r rhain fod yn seiniau cefndir i sôn rhagor wrthym am y lleoliad (e.e. sŵn stesion) neu'n fwy penodol i'r digwyddiadau a be sy'n digwydd i'r cymeriadau (sŵn rhywun yn syrthio i'r dŵr).

- Mae distawrwydd a seibiau yn y ddialog yn gallu bod yn ffordd fuddiol o greu gwewyr a drama. Os oes arnoch chi eisiau defnyddio'r rhain yn ein drama, cofiwch eu hychwanegu nhw'n nodiadau, fel bod yr actor sy'n darllen yn gwbod be i'w wneud.

- Mae tamaid o gerddoriaeth gefndir yn gallu helpu i bennu'r cywair a'r emosiwn. Os ydi'r cymeriadau mewn parti allech chi ddefnyddio rhywbeth siriol, ond ar gyfer angladd fyddech chi'n dewis rhywbeth cwbwl wahanol. Mae cerddoriaeth hefyd yn gallu bod yn ffordd fuddiol o gyfleu'r lleoliad neu o newid o'r naill olygfa i'r llall.

- Pan fyddwch chi wedi sgrifennu eich drama, mae'n wastad yn syniad da rhoi cynnig arni. Beth am i chi ofyn i'ch ffrindiau neu'ch teulu ddarllen y ddrama'n uchel i glywed sut mae'n swnio? Neu fe allech chi ei darllen a gofyn i bobol eraill wrando.